

Adolygiad Gwella Ansawdd Prifysgol Metropolitan Caerdydd gan QAA - Ionawr 2021

Cynllun Gweithredu mewn Ymateb i Ganlyniadau'r Adolygiad - Cyhoeddwyd Mai 19, 2021

Cadarnhaodd yr adolygiad fod y Brifysgol yn cwrdd â gofynion Rhan 1 ESG ar gyfer Sicrwydd Ansawdd Mewnol a gofynion perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Datblygwyd y Cynllun Gweithredu hwn ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr ac mae'n dangos sut mae'r Brifysgol yn bwriadu manteisio ar y ganmoliaeth a dderbyniodd a sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r argymhellion a'r datganiadau a wnaed yn adroddiad QAA.

Bydd cynnydd gyda'r Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd ac yn adrodd ar Adroddiad Sicrwydd Blynyddol y Bwrdd Academaidd i Fwrdd y Llywodraethwyr. Cyhoeddir diweddariad blynyddol cyntaf y Cynllun Gweithredu ym mis Mai 2022.

ARGYMHELLION						
Cyfeiriad yn yr Adolygiad Gwella Ansawdd	Sylw	Camau gweithredu i'w cymryd	Gweithredir gan	Dyddiad Targed	Dangosyddion llwyddiant	Gwerthuso a diweddariad cynnydd
Para 34	Bod trefniadau ar gyfer cefnogi cynrychiolaeth myfyrwyr mewn sefydliadau partner yn cael eu gweithredu yn gyson ac yn effeithiol.	Adolygu trefniadau a gwneud argymhellion gan gynnwys mynd i'r afael ag amrywioldeb o ran ymgysylltu â myfyrwyr partner, hyfforddiant cynrychiolwyr myfyrwyr partner a'u presenoldeb yn nigwyddiad partner Undeb y Myfyrwyr.	Cyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr	Adroddiad gydag argymhellion ar gyfer gwella AQSC yn nhymor yr hydref 2021.	Gwelliant parhaus yn ymgysylltiad myfyrwyr partner â threfniadau cymorth.	
Para 38	Bod y Brifysgol yn	1. Hyrwyddo'r	Cyfarwyddwr a Dirprwy	1. Gorffennaf 2021	Yr holl fyfyrwyr	

	<p>sicrhau bod yr holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n addysgu yn ymgymryd â hyfforddiant ffurfiol priodol cyn cymryd cyfrifoldeb am addysgu gan gynnwys hyfforddiant penodol ar gyfer darparu ar-lein lle bo hynny'n briodol.</p>	<p>gofyniad am hyfforddiant ar gyfer pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig (PGR) sy'n cefnogi'r broses Dysgu ac Addysgu trwy'r Academi Ddoethurol a seminarau addysgol.</p> <p>2. Ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd, gweithio gyda'r Gwasanaethau Pobl i gefnogi nodi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a gadarnhawyd ar un o'r tair rôl a gwmpesir ar y Cod Ymarfer.</p> <p>3. Monitro presenoldeb myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar y modiwlau gorfodol a'r modiwl 20-credyd.</p>	Gyfarwyddwr Ymchwil		<p>ymchwil ôl-raddedig presennol ac yn y dyfodol sy'n dysgu wedi'u cofrestru gyda RDC fel rhai sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.</p> <p>2. Medi 2021 (ac yn flynyddol)</p> <p>3. Hydref 2021 a Ionawr 2022 (ac yn flynyddol)</p>	
Paragraffau 110-	Bod y Brifysgol yn	Adolygu'r	Cyfarwyddwr	Adroddiad gydag	Mae'n amlwg bod	Ffurflen gais

111	<p>sicrhau bod ei holl bartneriaid yn deall ei gofynion ar gyfer delio â chwynion academaidd yn llwyr a bod y gofynion hyn yn cael eu cyfathrebu'n eglur ac yn gyson i'r holl fyfyrwyr sydd gyda phartneriaid.</p>	<p>trefniadau ar gyfer cyfleu gofynion cwynion ac apeliadau'r Brifysgol i bartneriaid.</p>	<p>Gwasanaethau'r Gofrestrfa</p>	<p>argymhellion ar gyfer gwella i AQSC /CPC yn nhymer yr hydref 2021.</p>	<p>staff a myfyrwyr 'Partneriaid' yn deall y gofynion.</p>	<p>apeliadau ar-lein wedi'i gweithredu. Sesiwn ar apeliadau wedi'i ddarparu mewn digwyddiad partner blynyddol 2021 yn cynnig arweiniad a hyfforddiant pellach i bartneriaid.</p> <p>Adolygiad o bolisiau a gweithdrefnau cwynion partneriaid wedi'u cwblhau. Sesiwn friffio ar y weithdrefn gwynion wedi'i chyflwyno yn Nigwyddiad Partner 2021.</p>
Y CADARNHAD						
Cyfeiriad yn yr Adolygiad Gwella Ansawdd	Sylw	Camau gweithredu i'w cymryd	Gweithredir gan	Dyddiad Targed	Dangosyddion Llwyddiant	Gwerthuso a diweddariad cynnydd
Para 37	Yn cadarnhau'r camau sy'n cael eu cymryd i ddatblygu ac ehangu'r	Pwyllgor Graddau Ymchwil i fonitro a gwerthuso datblygiad yr	Cyfarwyddwr a Dirprwy Gyfarwyddwr Ymchwil	Gwerthusiad blynyddol o gynnydd, yr adroddiad cyntaf	Sefydlu Coleg Doethurol Rhithwir Llawn.	

	academi ddoethurol bresennol ymhellach er mwyn cryfhau'r gymuned ymchwil ôl-raddedig.	academi ddoethurol o bryd i'w gilydd. Dewiswyd yr academi fel astudiaeth achos gan QAA.		i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil Mehefin 2022.	Cyhoeddi Astudiaeth Achos QAA.	
Para 125	Yn cadarnhau'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan fyfyrwyr ar raglen freiniol mewn un partner AB mewn perthynas ag ansawdd eu profiad dysgu. O ystyried pryderon parhaus y myfyrwyr hyn, mae'r tîm yn annog y Brifysgol i barhau i werthuso prydlondeb ac effeithiolrwydd y camau a gymerir.	Parhau i weithredu'r Cynllun Gweithredu Rhaglen a roddwyd ar waith ym mis Tachwedd 2020 a'i ddiweddarau ym mis Ionawr 2021 a gwerthuso a monitro ei effaith yn drylwyr. Adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd.	Arweinydd/Cymedrolwr Colegau Agored Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol/AU mewn Rheolwyr AB y Partner.	Adroddiad cynnydd cyntaf i dymor yr hydref 2021 AQSC ac yn dymhorol wedi hynny nes ei ddatrys.	Mae'r camau a gymerwyd yn effeithio ar safonau effaith, dysgu ac addysgu fel bod boddhad myfyrwyr ar y rhaglen yn cydfynd â chyfartaledd y sector.	
Y CANMOLIAETHAU						
Cyfeiriad yn yr	Sylw	Camau gweithredu	Gweithredir gan	Dyddiad Targed	Dangosyddion	Gwerthuso a

Adolygiad Gwella Ansawdd		i'w cymryd			Llwyddiant	diweddariad cynnydd
Para 26	Mae'n canmol y cyfraniad cryf a wnaed gan y Deoniaid Cysylltiol Ymgysylltiad Myfyrwyr yn cryfhau ymgysylltiad myfyrwyr a phartneriaeth rhwng myfyrwyr a'r Brifysgol.	Cymhwyso'r dull a gymerir at gylch gwaith ADSE i gylch gwaith Deoniaethau Cysylltiol eraill i yrru gwelliant, yn enwedig ym maes y bartneriaeth.	Dirprwy Is-ganngellor Profiad Myfyrwyr	Gorffennaf 2022	Cyfraniad cymharol Deoniaid Cysylltiol Partneriaeth a Deoniaid Cysylltiol Ymchwil i ymgysylltu â myfyrwyr a phartneriaeth â myfyrwyr.	
Para 49	Mae'n canmol dull arbennig o ragweithiol y Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth i wella lefel y gefnogaeth i fyfyrwyr ymhellach, yn enwedig yn ystod y pandemig.	Parhau â'r dull rhagweithiol gyda phwyslais ar lais myfyrwyr yn llywio'r broses o ddarparu gwasanaethau.	Cyfarwyddwr LIS	Gorffennaf 2022	Dangosyddion NSS, PTES, PRES	
Para 59	Mae'n canmol effaith mentrau'r Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd yn sicrhau y caiff	Parhau i adolygu'r Polisi Ymgysylltu â Myfyrwyr.	Cyfarwyddwr Gwella Dysgu	Medi 2021	Dangosyddion/ dadansoddiad sector NSS. Gwerthusiadau	

	ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr ei reoli a'i wella mewn modd cyson.				Modiwl: Cyflwyno fformat Prifysgol gyfan. Cynlluniau Gwella Rhaglenni: disodli'r broses APR; cynnal sesiynau adolygu PEP gyda'r holl raglenni cartref a phartner.	
Para 124	Y trefniadau cadarn sydd wedi'u gwreiddio'n dda i gynnal trosolwg dros bartneriaethau addysg drawswladol gan sicrhau nad oes risg i safonau academiaidd nac ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr	Cryfhau'r system Tiwtor Cysylltiol/ Cymedrolwr cyfredol trwy gyflwyno sianeli cyfathrebu mwy strwythuredig rhwng partneriaid Addysg Drawswladol (TNE), Datblygiad Addysgol Cyffredinol (GED), ysgolion, QED ac adrannau prifysgolion eraill. Ailgyflwyno cyfarfodydd rhanddeiliaid gyda'r partneriaid lle gall yr holl	Cyfarwyddwr Gwella Dysgu a Chyfarwyddwr Ymgysylltu Byd-eang	Gorffennaf 2022	Adborth cadarnhaol gan bartneriaid TNE. Adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr TNE.	

		adrannau perthnasol gwrdd a thrafod materion yn ogystal â lledaenu arfer da. Ehangu cwmpas a ffurfioli fforwm y Tiwtor Cysylltiol i gynnwys Rhaglenni Datblygu Academaidd, Pennaeth TNE a thiwtoriadaid cysylltiol. Creu pecynnau datblygu staff Tiwtor Cysylltiol safonol.				
Para 126	Mae'r tîm adolygu'n canmol y gwaith trefnu a rheoli cyson ac effeithiol iawn ar weithgareddau lleoliad gwaith ar draws y sefydliad.	Gwreiddio arfer da ymhellach ar draws yr holl fodiwlau dysgu seiliedig ar waith, wrth gyflwyno'r llawlyfr llawn ar draws y Brifysgol. Tîm lleoli i chwarae rhan allweddol wrth gynghori ar fodiwlau dysgu seiliedig ar waith mewn prosesau	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr	Awst 2021 Prosesau dilysu newydd a lanswyd gan QED yn Haf 2021.	Pob modiwl dysgu seiliedig ar waith yn defnyddio'r llifoedd gwaith a argymhellir. Holl fodiwlau dysgu seiliedig ar waith newydd neu addasedig wedi'u cynllunio yn unol â'r canllawiau arfer gorau.	

		dilysu neu adolygu cyfnodol.				
--	--	---------------------------------	--	--	--	--

Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr a Chynrychiolydd Arweiniol Myfyrwyr



Is-Ganghellor a Llywydd

